
# ROWND YR HORN  (Tudweiliog)

Hyd: **4.5km - 2.8m**




### Cyfarwyddiadau

- Cychwyn ym maes parcio'r 'Lion' (SH 236367) ac i'r ffordd fawr (B4417)
- Dal i'r chwith ac i lawr trwy ganol y pentref nes cyrraedd cyffordd am Roslan (ger Rhent) a dilyn arwydd 'TRAETH'.
- Ymlaen ar hyd Ffordd yr Arfordir heibio ffermydd Tywyn (SH 232374) a Phorth Ysgaden.
- Dilyn y ffordd i'r chwith ac ymlaen heibio Minafon nes dod i Benlon Caenewydd (SH 230361) ac i'r B4417.
- Dilyn y B4417 i'r chwith  yn ôl i Dudweiliog ac i faes parcio'r 'Lion'

**Pethau i'w gweld ar y daith:**



### 2 Eglwys Tudweiliog

Nawddsant yr eglwys yw Cwyfan. Ef hefyd sefydlodd eglwysi yn Llangwyfan, Dinbych ac ar Ynys Cwyfan ym Môn.

Cynlluniwyd yr eglwys bresennol gan Syr Gilbert Scott a'i hadeiladu yn 1849 o garreg leol.



### 3 Rhoslan

Y rhan hwn o blwyf Tudweiliog y dywedir fod yma bentref cyn sefydlu pentref Tudweiliog a bod yna eglwys ar y fan lle saif siop Tywyn yn awr.



### 1 Tudweiliog

Dywedir mai Tudwal oedd y sant gwreiddiol y plwyf ac mai ef a roddodd ei enw i'r pentref.

Eglurir enw'r pentref hefyd gyda stori am ddyn a'i geffyl yn nofio o Iwerddon i Lŷn, ac er mwyn annog y ceffyl i nofio'n gyflymach mae'n galw arno "Ty'd Weiliog! Ty'd Weiliog"!'

Eglurhad arall yw bod modd ers talwm groesi ar gefn ceffyl i Iwerddon ar drai. Wrth ddychwelyd i Dudweiliog ar gefn ei geffyl o'r enw Gweiliog, clywodd y person gloch yr eglwys yn galw'r plwyfolion. Ceisiodd ruthro'i geffyl a gweiddi 'Tyrd Weiliog'!

Awgrymir hefyd fod yr enw'n gysylltiedig â Sant Tudwal.



### 6 Porth Sglaig

Gwelir olion melin o'r hen oes yma a gerllaw mae Ffynnon Cwyfan sydd wedi ei sancteiddio i sant eglwys Tudweiliog.

Arferid offrymu pinnau yn y ffynnon er mwyn gwella defaid ar groen ac anhwylderau eraill.



### 5 Traeth Tywyn

Arno mae craig o'r enw Yr Ebol gydag ôl troed ceffyl arni.

Dywedir y byddai'r ŷd yn ddrud iawn bai'r môr yn golchi'r tywod oddi ar yr ôl troed ac i'r gwrthwyneb pe bai'r tywod yn ei orchuddio.




### 4 Tywyn

Yn y ffermdy hwn y cynhaliodd Howell Harris seiadau - y gyntaf ohonynt yn gynnar ym mis Chwefror 1741.